# Dod â'ch contract i ben a symud allan

Mae eich contract yn egluro bod angen i chi roi o leiaf **4 wythnos o rybudd ysgrifenedig** i ddod â'ch contract i ben. Rhaid i'r rhybudd ddod i ben ar y dyddiad sydd wedi ei gytuno gyda'r Swyddog Gosod a chynnwys eich cyfeiriad newydd rhag ofn ein bod eisiau cysylltu gyda chi.

## Cyn i chi symud:

- Trafod gyda Swyddog Gosod, Shelter Cymru neu Gyngor ar Bopeth os yda chi angen cefnogaeth i ddod a'ch tenantiaeth i ben a/neu symud i'ch cartref newydd.
- Talu eich holl rent a thaliadau hyd at ddiwedd eich tenantiaeth bresennol.
- Sicrhau bod bob dim mewn cyflwr da a'ch bod wedi adrodd am unrhyw ddifrod neu waith trwsio i ni cyn i chi adael.
- Sicrhau bod yr holl eiddo, gan gynnwys yr atig a / neu adeiladau tu allan wedi eu clirio ac nad oes unrhyw garpedi, dodrefn, ysbwriel a phethau personol wedi eu gadael ar ôl.
- Gadael i ni / contractwr ddod mewn i'r eiddo i gynnal archwiliad diwedd contract ar yr eiddo.
- Trefnu'r symud gyda theulu / ffrindiau neu gwmni symud tŷ.

## Rhestr Wirio:

Rydym wedi paratoi rhestr fer o'r rhai o'r prif bethau sydd angen i chi wneud cyn symud:

- Gwnewch nodyn o ddarlleniadau terfynol mesuryddion nwy, trydan a dŵr a rhowch y wybodaeth i'r darparwyr gwasanaeth.
- Datgysylltwch y ffôn a threfnwch gyda'r cwmni ffôn am gyfrif terfynol yn eich cyfeiriad presennol a chymryd drosodd yn eich cyfeiriad newydd.
- Rhoi gwybod i'ch darparwr rhyngrwyd a Sky ayb eich bod yn symud.
- Cysylltu gyda'r Post Brenhinol er mwyn ailgyfeirio eich post.
- Canslo unrhyw beth a gaiff ei ddanfon i'ch cartref e.e. papur/llefrith.
- Dweud wrth fudd-daliadau'r cyngor a threth y cyngor eich bod yn symud.
- Mewn tywydd oer, trowch y cyflenwad dŵr i ffwrdd yn y prif gyflenwad.
- Gadael eich cartref mewn cyflwr glan a thaclus.
- Cau bob ffenestr a chloi bob drws.
- Rhoi bob goriad yn ôl gan gynnwys goriadau llefydd cymunedol a chypyrddau storio a ffobiâu drysau llefydd cymunedol.

Os oes gennych unrhyw gwestiynau am ddod a'ch contract i ben, mae croeso i chi gysylltu efo ni ac mi wnawn ni'n gorau i'ch helpu.

adra.co.uk | 0300 123 8084 |
@adrataicyf | ymholiadau@adra.co.uk